Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o Wasanaethau Gwastraff – Cyngor Sir Gaerfyrddin

Blwyddyn archwilio: 2020-2021

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2516A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Gaerfyrddin fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, adran 18 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Argymhellion 5

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi cyrraedd ei dargedau ailgylchu statudol ac yn ddiweddar mae wedi drafftio strategaeth i wneud ei wasanaeth gwastraff yn fwy cynaliadwy, ond nid yw wedi cwblhau'r strategaeth ac nid oes ganddo gynllun eglur i ymdrin â'r nifer uchel o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon yn y sir 8

Hyd yma, mae'r Cyngor wedi cyrraedd yr holl dargedau ailgylchu statudol ond mae wedi cydnabod nad yw ei drefniadau casglu presennol yn gynaliadwy 8

Mae gwasanaeth y Cyngor ar gyfer casglu gwastraff o'r ardd wedi dyblu nifer ei gwsmeriaid yn y flwyddyn diwethaf ac mae'n helpu i wella'i berfformiad ailgylchu, ond nid yw'r gwasanaeth yn ei ariannu ei hun eto 10

Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer ei gwmni ailgylchu hyd braich wedi gwella ers iddo newid ei fodel cwmni, ond mae angen i risgiau parhaus gael eu hadnabod yn fwy eglur a'u lliniaru 11

Fe gynhaliodd y Cyngor wasanaeth gwastraff diogel ac effeithiol yn ystod pandemig COVID-19 13

Mae gan Sir Gaerfyrddin nifer uchel o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon yr hysbysir yn eu cylch ac, er ei fod yn cymryd rhai camau gweithredu, nid oes gan y Cyngor gynllun eglur i fynd i'r afael â'r broblem 14

Mae'r Cyngor wedi drafftio strategaeth gwastraff yn ddiweddar i wneud y gwasanaeth gwastraff yn fwy cynaliadwy ond mae angen iddi gael ei chwblhau a'i hariannu 19

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 O ganlyniad i'n gwaith Sicrwydd a Risg yn 2019-20 fe gytunom ni gyda Chyngor Sir Gaerfyrddin (y Cyngor) y byddem yn cynnal adolygiad o'i wasanaethau gwastraff am y rhesymau canlynol:

- o 2017-19 fe wnaeth perfformiad y Cyngor o ran faint o wastraff yr oedd yn ei ailgylchu, yn ei ailddefnyddio neu'n ei gompostio ddirywio.
  – Yn 2017-18 cyflawnodd y Cyngor 63.6% ar gyfer y mesur hwn a 59% yn 2018-19 (yn erbyn targed statudol gan Lywodraeth Cymru o 58%). Roedd ei berfformiad yn 2018-19 bron i 4 pwynt canran islaw cyfartaledd Cymru ar draws pob un o'r 22 o gynghorau, ac roedd perfformiad y Cyngor wedi dirywio o 66.2% yn 2016-17.
  – Yn 2018-19 roedd y Cyngor yn yr 22ain safle o 22 ymhlith awdurdodau lleol Cymru o ran ei berfformiad ailgylchu (PAM/030)[1].
- yn 2019-20, fe wellodd y Cyngor ei berfformiad i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o 64% trwy gyflawni canran ailgylchu o 64.66%. Fodd bynnag, erbyn 2024-25 mae angen i'r Cyngor gyrraedd targed nesaf Llywodraeth Cymru, sef ailgylchu 70%.
- dros y pum mlynedd diwethaf (ers 2015-16) mae nifer y digwyddiadau tipio anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu bron bedair gwaith drosodd. Yn 2015-16, cofnododd y Cyngor 972 o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon, ac yn 2018-19 fe gofnododd 3,516 a oedd yn fwy na phob Cyngor arall yng Nghymru ond am un.
- yn 2018 fe newidiodd y Cyngor statws y Cwmni y mae'n ei ddefnyddio ar gyfer gwaredu gwastraff, CWM Environmental Ltd (CWM), o Gwmni Gwaredu Gwastraff Awdurdod Lleol (LAWDC) i gwmni teckal[2].

2 Fe wnaeth ein gwaith adolygu pa un a oes gan y Cyngor drefniadau priodol yn eu lle i gynllunio a darparu ei wasanaethau gwastraff yn gynaliadwy. Fel rhan o'r gwaith yma, fe wnaethom asesu effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer llywodraethu CWM. Fe wnaethom hefyd fwrw golwg ar effaith COVID-19 ar wasanaeth gwastraff y Cyngor a pherfformiad y Cyngor o ran ymdrin â thipio anghyfreithlon.

[1] Mesurau perfformiad a gesglir gan Data Cymru yw Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs).

[2] Cwmni teckal yw'r enw cyffredin am gwmni sy'n cael budd o gontractau ar gyfer gwaith, gwasanaethau neu gyflenwadau gan yr awdurdod contractio sy'n ei reoli heb orfod mynd trwy broses dendro gystadleuol. Rhaid i o leiaf 80% o weithgarwch y cwmni teckal fod ar gyfer ei berchennog yn y sector cyhoeddus.

3 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Ebrill 2021.

## Yr hyn a ganfuom

4 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A oes gan y Cyngor drefniadau priodol i gynllunio a darparu ei wasanaethau gwastraff yn gynaliadwy?

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: Mae'r Cyngor wedi cyrraedd ei dargedau ailgylchu statudol ac yn ddiweddar mae wedi drafftio strategaeth i wneud ei wasanaeth gwastraff yn fwy cynaliadwy, ond nid yw wedi cwblhau'r strategaeth ac nid oes ganddo gynllun eglur i ymdrin â'r nifer uchel o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon yn y sir:

- hyd yma, mae'r Cyngor wedi cyrraedd yr holl dargedau ailgylchu statudol ond mae wedi cydnabod nad yw ei drefniadau casglu presennol yn gynaliadwy;
- mae gwasanaeth y Cyngor ar gyfer casglu gwastraff o'r ardd wedi dyblu nifer ei gwsmeriaid yn y flwyddyn diwethaf ac mae'n helpu i wella'i berfformiad ailgylchu, ond nid yw'r gwasanaeth yn ei ariannu ei hun eto;
- mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer ei gwmni ailgylchu hyd braich wedi gwella ers iddo newid ei fodel cwmni, ond mae angen i risgiau parhaus gael eu hadnabod yn fwy eglur a'u lliniaru
- fe gynhaliodd y Cyngor wasanaeth gwastraff diogel ac effeithiol yn ystod pandemig COVID-19;
- mae gan Sir Gaerfyrddin nifer uchel o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon yr hysbysir yn eu cylch ac, er ei fod yn cymryd rhai camau gweithredu, nid oes gan y Cyngor gynllun eglur i fynd i'r afael â'r broblem; ac
- mae'r Cyngor wedi drafftio strategaeth gwastraff yn ddiweddar i wneud y gwasanaeth gwastraff yn fwy cynaliadwy ond mae angen iddi gael ei chwblhau a'i hariannu.

# Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Argymhellion** |
|---|
| **Gwastraff o'r ardd** |

**Argymhellion**

A1 Dylai'r Cyngor nodi mesurau perfformiad ar gyfer ei wasanaeth casglu gwastraff o'r ardd a sicrhau goruchwyliaeth effeithiol ar berfformiad yn y maes hwn gan uwch swyddogion ac Aelodau.

**CWM Environmental Ltd. (CWM)**

Dylai'r Cyngor:

A2 sicrhau bod cofrestr risgiau ar gyfer CWM.

A3 sicrhau ei fod yn goruchwylio perfformiad CWM a risgiau cysylltiedig yn effeithiol, gan gynnwys mewn pwyllgorau perthnasol megis trosolwg a chraffu.

A4 datblygu cynllun wrth gefn ar gyfer ymdrin ag unrhyw ganlyniadau os daw CWM i fod yn ariannol anhyfyw.

**Tipio anghyfreithlon**

Dylai'r Cyngor:

A5 ddatblygu a gweithredu cynllun y cytunwyd arno i fynd i'r afael mewn modd cynaliadwy â'r nifer uchel o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon.

A6 adrodd yn gorfforaethol ar set lawnach o fesurau perfformiad ar gyfer tipio anghyfreithlon, gan gynnwys nifer y digwyddiadau, i alluogi uwch swyddogion ac Aelodau i fod â goruchwyliaeth fwy effeithiol ar y broblem ac i ysgogi gwelliant.

**Strategaeth Gwastraff**

A7 Wrth gwblhau'r strategaeth gwastraff dylai'r Cyngor sicrhau:

- bod pob elfen o'r 'hierarchaeth wastraff'[3] yn cael eu hystyried, gan gynnwys atal;
- ei fod yn integreiddio'r strategaeth â'i brosiectau a chynlluniau cysylltiedig eraill e.e. adfywio, gorfodi, tipio anghyfreithlon;
- bod ganddo gynlluniau eglur a chynaliadwy ar gyfer ariannu'r strategaeth (gan gynnwys cynlluniau wrth gefn os nad oes cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gael);
- ei fod yn neilltuo amser i ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch ei newidiadau arfaethedig i drefniadau casglu gwastraff; a hefyd

[3] Mae'r hierarchaeth wastraff yn nodi ym mha drefn y dylid ystyried opsiynau ar gyfer rheoli gwastraff yn seiliedig ar effaith amgylcheddol (gweler arddangosyn 9).

**Argymhellion**

- ei fod yn datblygu ac yn gweithredu strategaeth ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar y newid ymddygiadol gan y cyhoedd sy'n ofynnol i lansio a mabwysiadu ei strategaeth newydd yn llwyddiannus (y Patrwm ar gyfer Casglu gan Lywodraeth Cymru)[4].

**Cynllun Busnes Adran yr Amgylchedd**

A8 Dylai'r Cyngor adolygu Cynllun Busnes Adran yr Amgylchedd i sicrhau:

- ei fod yn nodi camau gweithredu atebol eglur ar gyfer ei wasanaeth gwastraff sy'n benodol, yn fesuradwy ac yn amserol; a hefyd
- ei fod yn cynnwys mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â'r camau gweithredu, ac sydd â thargedau a meini prawf llwyddiant eglur.

[4] Llywodraeth Cymru, **Cynllun y Sector Trefol (Rhan 1) – Patrwm ar gyfer Casglu**, Mawrth 2011. https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/cynllun-sector-trefol-rhan-1-patrwm-ar-gyfer-casglu_1.pdf

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi cyrraedd ei dargedau ailgylchu statudol ac yn ddiweddar mae wedi drafftio strategaeth i wneud ei wasanaeth gwastraff yn fwy cynaliadwy, ond nid yw wedi cwblhau'r strategaeth ac nid oes ganddo gynllun eglur i ymdrin â'r nifer uchel o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon yn y sir

### Hyd yma, mae'r Cyngor wedi cyrraedd yr holl dargedau ailgylchu statudol ond mae wedi cydnabod nad yw ei drefniadau casglu presennol yn gynaliadwy


6 Mae'r Cyngor yn casglu gwastraff o oddeutu 91,000 o gartrefi. Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth pythefnosol i gasglu gwastraff gweddillol, gwasanaeth pythefnosol i gasglu gwastraff ailgylchadwy cymysg, a gwasanaeth wythnosol i gasglu gwastraff bwyd. Mae'r Cyngor hefyd yn codi am gasglu eitemau gwastraff swmpus a gwastraff o'r ardd ar garreg y drws.

7 Ers i Lywodraeth Cymru gyflwyno targedau statudol ar gyfer cynghorau yn 2012-13 mewn perthynas â'r ganran o'r gwastraff a gesglir ganddynt sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, mae'r Cyngor wastad wedi mynd y tu hwnt i'r targedau hynny. Fodd bynnag, fe ostyngodd perfformiad y Cyngor yn sylweddol o 66.2% yn 2016-17 i 58.9% yn 2018-19 (o'i gymharu â tharged statudol o 58%), a oedd yn golygu bod y Cyngor yn yr 22ain safle allan o'r 22 o gynghorau yng Nghymru. Wedi hynny rhoddodd y Cyngor fesurau ar waith i gyrraedd y targed statudol newydd ar gyfer 2019-20, sef 64%, gan gynnwys:

- polisi newydd ar Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (a gyflwynwyd o 1 Ebrill 2019), a oedd yn cynnwys gwirio man preswylio, gwahardd cerbydau masnachol a newidiadau i oriau agor canolfannau; a
- gostyngiadau cynyddol ar eu system bagiau duon a rheolaethau ar gyfer didoli gwastraff gweddillol mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (o 7 Hydref 2019).


Fe wnaeth y mesurau hyn ar y cyd alluogi'r Cyngor i gyrraedd y targed statudol o 64% o drwch blewyn, gan gyflawni canran o 64.66% a gosod y Cyngor yn yr 17eg safle allan o'r 22 o gynghorau lleol yng Nghymru.

**Arddangosyn 2: Cyngor Sir Gaerfyrddin – y ganran o'r gwastraff a ailddefnyddiwyd, a ailgylchwyd neu a gompostiwyd 2012-2020**




| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 53.8 | 55.7 | 59.6 | 63.5 | 66.2 | 63.6 | 58.9 | 64.7 |
| Cyfartaledd Cymru | 52.3 | 54.3 | 56.2 | 60.2 | 63.8 | 62.7 | 62.8 | 65.1 |
| Targed Statudol | 52 | 52 | 52 | 58 | 58 | 58 | 58 | 64 |

**Arddangosyn 3: safle Cyngor Sir Gaerfyrddin yng Nghymru ar gyfer y ganran o'r gwastraff a ailddefnyddiwyd, a ailgylchwyd neu a gompostiwyd 2012-2020**




8 Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth gwastraff yn gweithredu methodoleg casgliadau bob yn ail wythnos (ailgylchu sych mewn bagiau gleision un wythnos a gwastraff gweddillol mewn bagiau duon yr wythnos ganlynol). Mae'r gwasanaeth yn profi

anghydbwysedd o ran llwyth gwaith rhwng y ddwy wythnos, gyda mwy o fagiau gleision yn cael eu rhoi allan i'w casglu un wythnos na'r bagiau duon yr wythnos ganlynol. Mae hyn yn gadarnhaol o ran y newid yn ymddygiad ailgylchu trigolion. Fodd bynnag, nid yw trefniadau gweithredol y Cyngor yn gyson â chyfraddau ailgylchu trigolion eto. Ar wythnosau casglu deunyddiau i'w hailgylchu mae'r gwasanaeth yn cyrraedd pen eithaf ei gapasiti heb gwblhau'r llwybrau'n llawn, gan adael bagiau heb eu casglu a hynny'n arwain at gwynion gan gwsmeriaid.

9 Ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor yn dilyn y Patrwm ar gyfer Casglu[5] gan Lywodraeth Cymru ar gyfer casglu deunyddiau ailgylchadwy wedi'u gwahanu ar garreg y drws. Mae casglu deunyddiau ailgylchadwy cymysg yn achosi cyfraddau halogi uwch mewn deunyddiau a gaiff eu hailgylchu. Byddai'r Patrwm ar gyfer Casglu'n lleihau cyfraddau halogi. Mae'r Cyngor yn cydnabod, er mwyn i'r gwasanaeth gwastraff fod yn gynaliadwy, y byddai newid i gasglu deunyddiau wedi'u gwahanu ar garreg y drws yn creu ffrydiau o ddeunyddiau glân, sych a heb eu halogi y byddai'n haws iddo eu gwerthu ym marchnadoedd y DU.

## Mae gwasanaeth y Cyngor ar gyfer casglu gwastraff o'r ardd wedi dyblu nifer ei gwsmeriaid yn y flwyddyn diwethaf ac mae'n helpu i wella'i berfformiad ailgylchu, ond nid yw'r gwasanaeth yn ei ariannu ei hun eto

10 Mae'r Cyngor wedi bod yn rhedeg gwasanaeth casglu gwastraff o'r ardd ers 2006. Fe'i cyflwynwyd i wella'i berfformiad ailgylchu ac i ddarparu gwasanaeth o'r fath ar gyfer trigolion Sir Benfro. I ddechrau, roedd y Cyngor yn casglu gwastraff o'r ardd mewn bagiau ond erbyn hyn mae'n defnyddio biniau ar olwynion y mae'n casglu'r gwastraff ohonynt bob pythefnos rhwng mis Mawrth a mis Hydref bob blwyddyn. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn codi £48 y flwyddyn ar bob cartref am ddarparu'r gwasanaeth dewisol hwn. Caiff yr holl wastraff o'r ardd ei brosesu yn Nantycaws gan CWM i gynhyrchu 'Compost Hud Myrddin' sydd ar gael i'r cyhoedd ei brynu yn y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref.

11 Nid oedd unrhyw fesurau llwyddiant eglur yng nghynllun busnes y gwasanaeth casglu gwastraff o'r ardd yn 2017 (pan newidiodd y gwasanaeth casglu gwastraff o'r ardd i gasglu o finiau ar olwynion) heblaw am yr angen iddo allu ei ariannu ei hun o flwyddyn pedwar ymlaen, a oedd yn seiliedig ar fod â 4,500 o danysgrifiadau y flwyddyn. Mae nifer y cwsmeriaid ar gyfer casglu gwastraff o'r ardd wedi tyfu'n sylweddol yn ystod y pandemig o oddeutu 4,200 o gwsmeriaid ar ddechrau mis Mawrth 2020 i oddeutu 9.400 ym mis Ebrill 2021. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth casglu gwastraff o'r ardd yn dal i redeg ar golled ariannol, er bod y diffyg yn lleihau o un flwyddyn i'r llall. £40,000 oedd y diffyg yn nhymor casglu 2020. Er gwaethaf y llwyddiant diweddar i dyfu nifer y cwsmeriaid, nid oes darlun clir i ddangos pryd y

[5] Llywodraeth Cymru, **Cynllun y Sector Trefol (Rhan 1) – Patrwm ar gyfer Casglu**, Mawrth 2011. https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/cynllun-sector-trefol-rhan-1-patrwm-ar-gyfer-casglu_1.pdf

bydd y gwasanaeth casglu gwastraff o'r ardd yn gallu ei ariannu ei hun. Wrth edrych tua'r dyfodol mae angen i'r gwasanaeth bennu'r mesurau perfformiad y mae'n bwriadu ei defnyddio i werthuso'i lwyddiant.

12 Fe ychwanegodd gwastraff o'r ardd 1.7 o bwyntiau canran at gyfraddau ailgylchu ar y cyfan yn 2019-20 a rhagwelir y bydd yn cyfrannu tua 3-4 pwynt canran yn 2020-21.

13 Mae cerbyd ychwanegol wedi cael ei gyflwyno ar gyfer tymor 2021-22, a fydd yn ei gwneud yn bosibl ehangu'r gwasanaeth ymhellach. Mae'r Cyngor yn gobeithio denu 1,750 o gwsmeriaid yn rhagor yn y tymor cyfredol. Mae'r gwasanaeth casglu gwastraff o'r ardd yn amcanu at wneud newidiadau pellach yn 2021 gan gynnwys:

- datblygu a gweithredu datrysiad TG i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli ac yn gweithredu'n effeithlon;
- adolygu rowndiau casglu; a
- newid i fethodoleg casglu seiliedig ar barthau i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon a darparu cyfle i gynyddu nifer y cwsmeriaid.

## Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer ei gwmni ailgylchu hyd braich wedi gwella ers iddo newid ei fodel cwmni, ond mae angen i risgiau parhaus gael eu hadnabod yn fwy eglur a'u lliniaru

14 Cwmni gwastraff ac ailgylchu teckal sydd wedi'i leoli yn Sir Gaerfyrddin ac a berchnogir yn gyfan gwbl gan Gyngor Sir Gaerfyrddin yw CWM Environmental Ltd (CWM). Mae'r cwmni'n gweithredu dau gyfleuster ailgylchu deunyddiau yn Nantycaws. Mae ei gyfleuster ailgylchu deunyddiau duon yn ceisio adfer deunyddiau i'w hailgylchu o wastraff gweddillol, a fyddai fel arfer yn mynd i safle tirlenwi. Mae cyfleuster ailgylchu deunyddiau glas CWM yn ceisio cynyddu i'r eithaf y deunyddiau ailgylchadwy y mae'n eu casglu o fagiau deunyddiau ailgylchadwy cymysg cartrefi a chasgliadau masnachol. Mae CWM hefyd yn rhedeg pedair Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn Nantycaws, Trostre, Wern Ddu a'r Hendy-gwyn ar Daf, ac mae'n rheoli tair gorsaf trosglwyddo gwastraff yn Llanelli, Rhydaman a Chaerfyrddin.

15 Sefydlwyd CWM yn wreiddiol gan y Cyngor fel Cwmni Gwaredu Gwastraff Awdurdod Lleol (LAWDC) ac fe'i newidiwyd gan y Cyngor yn gwmni teckal yn 2018. Er mwyn bod â statws teckal rhaid i o leiaf 80% o fusnes CWM dros gyfnod o dair blynedd fod yn waith a wneir ar gyfer y prif gyfranddaliwr, h.y. Cyngor Sir Gaerfyrddin. Ar gyfer yr 20% o fusnes CWM sy'n weddill, gall wneud gwaith preifat i awdurdodau lleol eraill neu fusnesau.

16 Fe benderfynodd y Cyngor newid CWM i fodel cwmni teckal am ei fod yn credu y byddai hynny'n rhoi mwy o ran, rheolaeth a hyblygrwydd iddo yn y broses o bennu cyfeiriad strategol y cwmni gan ganiatáu iddo redeg yn fwy masnachol hefyd. Roedd y Cyngor hefyd yn teimlo y gallai gynnig hyblygrwydd o ran y modd y darperir gwasanaethau i ateb gofynion polisi gwastraff yn y dyfodol, a newidiadau

mewn marchnadoedd lleol ac yn yr economi. Ers newid i fodel cwmni teckal, dywedodd CWM a'r Cyngor wrthym fod hyn hefyd wedi gwella perthnasoedd ac wedi arwain at gysoni nodau'r ddau ohonynt yn well.

17 Llywodraethir CWM gan Fwrdd y Cwmni (sy'n cynnwys aelodau o'r cwmni a swyddogion Cyngor Sir Gaerfyrddin). Mae Bwrdd y Cwmni'n adrodd wrth Fwrdd y Cyfranddalwyr, y mae uwch swyddogion eraill a Chynghorwyr o'r Cyngor yn eistedd arno. Mae Bwrdd y Cyfranddalwyr yn cwrdd yn chwarterol.

18 Cyn mis Mawrth 2021 ymddengys mai cyfyngedig oedd yr oruchwyliaeth ar CWM gan bwyllgorau ffurfiol y Cyngor, ond mae nodiadau cyfarfod Bwrdd Cyfranddalwyr CWM ym mis Mawrth 2021 yn datgan, 'er mwyn cael goruchwyliaeth gan aelodau a chyflwyno rhywfaint o gysondeb i'r broses, bydd yn ofynnol i gwmnïau hyd braich yr Awdurdod gyflwyno'u cynllun busnes i'r Bwrdd Gweithredol Rhagarweiniol yn flynyddol gyda throsolwg yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol bob 3-6 mis'. O ganlyniad, fe gyflwynodd CWM ei gynllun busnes 2021-24 i Fwrdd Gweithredol Rhagarweiniol y Cyngor ar 19 Ebrill 2021. Er bod hwn yn gam cadarnhaol o ran cynyddu goruchwyliaeth a her gan Aelodau Etholedig, nid oes tystiolaeth bod perfformiad CWM yn cael ei ystyried yn y pwyllgor craffu.

19 Rhwng 2015 a 2019, roedd CWM yn rhedeg ar golled ariannol o fwy na £2m. Cafwyd y perfformiad gwaethaf yn 2018 pan oedd colled CWM yn £959,000. Byddai'n ofynnol i'r Cyngor, fel cyfranddaliwr 100% ariannu unrhyw golledion ariannol, ,ond hyd yma ni fu hyn yn ofynnol gan bod CWM wedi defnyddio'i gronfeydd wrth gefn. Mae CWM wedi lleihau ei gronfeydd wrth gefn o £5,513,000 yn 2015 i £3,562,000 yn 2019. Yn y flwyddyn gyfredol mae'r cwmni'n nodi elw ar ôl 10 mis o £48,000 ac yn rhagweld elw dros 12 mis o £360,000.

20 Mae CWM yn wynebu nifer o risgiau parhaus, gan gynnwys: parhau i fod yn gystadleuol mewn marchnad gyfnewidiol ar gyfer deunyddiau i'w hailgylchu, cadw ei weithlu, ac ymdrin â hawliad posibl am gysoni telerau ac amodau ei staff. Yn ei adroddiad yn sefydlu'r trefniant cwmni teckal newydd, nododd y Cyngor, 'Bydd angen i'r cwmni gynhyrchu ei gofrestr risgiau ei hun a'i brosesau ei hun ar gyfer proffilio risgiau i'r busnes ynghyd â dangos sut y caiff risgiau eu rheoli a'u lliniaru. Bydd CWM Environmental Ltd yn cynnal ei gofrestr risgiau ar wahân ei hun'. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes cofrestr risgiau ar wahân ar gyfer CWM. Mae'r Cyngor wrthi'n adolygu hyn. Yn ogystal â bod gan CWM ei drefniadau ei hun i gofnodi, lliniaru a rheoli risgiau'n effeithiol, mae angen i'r Cyngor sicrhau hefyd ei fod yn datblygu cynllun wrth gefn i ymdrin â'r potensial y bydd CWM yn dod yn ariannol anhyfyw.

## Fe gynhaliodd y Cyngor wasanaeth gwastraff diogel ac effeithiol yn ystod pandemig COVID-19

21 Yn adroddiad y Cyngor ym mis Tachwedd 2020[6] ar yr effaith a gafodd pandemig COVID-19 ar ei wasanaeth gwastraff rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020, roedd yn dangos, er bod gwastraff trefol y sir yn ei gyfanrwydd wedi gostwng 18.5% (o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2019), bod y gwastraff a gasglodd ar garreg y drws wedi cynyddu 20% ar y cyfan, gan bod mwy o bobl gartref a bod safleoedd y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ar gau am saith wythnos yn ystod y cyfnod hwnnw. Roedd dadansoddiad y Cyngor yn dangos:

- cynnydd o 14% mewn gwastraff gweddillol ar garreg y drws (bagiau duon);
- cynnydd o 34% mewn deunyddiau ailgylchadwy cymysg sych ar garreg y drws (bagiau gleision);
- cynnydd o 35% mewn gwastraff bwyd ar garreg y drws;
- gostyngiad o 83% yng ngwastraff gweddillol Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref; a
- gostyngiad o 77% yn neunyddiau ailgylchadwy Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref.

22 Fe gynhaliodd y Cyngor wasanaeth casglu gwastraff ar garreg y drws trwy gydol y pandemig yn 2020 er gwaethaf pwysau sylweddol ar y gwasanaeth, ac fe gyflwynodd nifer o reolaethau a newidiadau i'r gwasanaeth i gynnal y gwasanaeth, gan amcanu hefyd ar gadw'r gweithlu'n ddiogel.

23 Yn ystod y pandemig yn 2020, rhoddodd CWM gymorth i'r Cyngor gynnal gwasanaeth casglu gwastraff trwy gyflenwi cerbydau ac ystod o gyflogeion gan gynnwys gyrwyr, criw, a staff glanhau. Fe sefydlodd y Cyngor gronfa barhaol o yrwyr,o adrannau ar draws y Cyngor, hefyd i helpu i wneud y gwasanaeth yn fwy cydnerth.

24 Yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf (a ddechreuodd ym mis Mawrth 2020) fe ataliodd y Cyngor yr holl gynlluniau addysg ac ymwybyddiaeth o ddrws i ddrws mewn perthynas â gwastraff. Cafodd ei gamau gorfodi amgylcheddol eu hatal hefyd.

25 Fe gyflwynodd y Cyngor system archebu ar-lein i drigolion archebu slotiau ymweld pan ailagorodd y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ym mis Mai 2020. Dywedodd y Cyngor wrthym fod y system archebu'n llwyddiannus ac yn boblogaidd ymhlith trigolion, ond nid yw'r Cyngor wedi penderfynu eto a fydd yn parhau â'r system ar ôl y pandemig.

26 Ar 24 Ebrill 2021, roedd tân mawr yng Nghanolfan Ailgylchu'r Cyngor yn Nantycaws pan gafodd ei gyfleuster adfer deunyddiau o fagiau gleision ei ddifa. Fe symudodd y Cyngor a CWM yn gyflym i ddod o hyd i gyfleusterau trin eraill ar gyfer

[6] Cyngor Sir Gaerfyrddin, '**Environment Department – COVID-19 Service Position Statement'**, Adroddiad i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd, 24 Tachwedd 2020

y deunyddiau cymysg, sych i'w hailgylchu. Fe barhaodd gwasanaethau casglu ar garreg y drws heb i'r digwyddiad amharu arnynt. Bu'n rhaid cau'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn Nantycaws dros dro, ond mae'r diwrnodau agor ar gyfer Canolfan yr Hendy-gwyn ar Daf wedi cael eu hestyn fel dewis arall i'r cyhoedd.


## Mae gan Sir Gaerfyrddin nifer uchel o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon yr hysbysir yn eu cylch ac, er ei fod yn cymryd rhai camau gweithredu, nid oes gan y Cyngor gynllun eglur i fynd i'r afael â'r broblem

27 Diffinnir tipio anghyfreithlon fel gwastraff a adawyd sy'n rhy fawr i gael ei symud â berfa arferol ar gyfer ysgubo â llaw[7]. Mewn termau syml, byddai llond un bag bin neu fwy'n gyfystyr â digwyddiad tipio anghyfreithlon. Cynghorau sy'n gyfrifol am glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon sy'n digwydd ar eu tir. Ceir Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus ar gyfer tipio anghyfreithlon, sef 'nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon yr hysbyswyd yr awdurdod yn eu cylch yn ystod y flwyddyn' (PAM/035). Ar adeg ein gwaith ni, roedd y data Cymru gyfan diweddaraf a oedd ar gael yn ymwneud â'r flwyddyn 2018-19. Nifer cyfartalog y diwrnodau ar gyfer clirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon yn ystod y cyfnod hwn oedd 2.2 diwrnod ar gyfer Cymru a 2.3 diwrnod ar gyfer Cyngor Sir Gaerfyrddin.


28 Roedd nifer y digwyddiadau tipio anghyfreithlon a gofnodwyd gan y Cyngor yn 2018-19 a 2019-20 yn fwy na'r holl gynghorau eraill ond am un. Yn y pum mlynedd ddiwethaf, rhwng 2015 a 2020, fe gynyddodd nifer y digwyddiadau tipio anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin fwy na phedair gwaith drosodd. Yn 2015-16, roedd 972 o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon, yn 2019-20 roedd 4,111.

[7] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Data Cymru, Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs) 2019-20, Canllawiau i awdurdodau lleol


**Arddangosyn 4: digwyddiadau tipio anghyfreithlon fesul Awdurdod Lleol 2018-19**




**Arddangosyn 5: digwyddiadau tipio anghyfreithlon fesul Awdurdod Lleol 2019-20**




**Arddangosyn 6: digwyddiadau tipio anghyfreithlon Cyngor Sir Gaerfyrddin 2006 – 2020**




| | 06-07 | 07-08 | 08-09 | 09-10 | 10-11 | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 | 18-19 | 19-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 1,649 | 1,215 | 1,487 | 1,619 | 1,542 | 1,516 | 1,363 | 1,438 | 1,306 | 972 | 1,732 | 2,939 | 3,516 | 4,111 |
| Cyfartaledd Cymru | 2,493 | 2,818 | 2,516 | 2,190 | 1,898 | 1,655 | 1,585 | 1,497 | 1,442 | 1,648 | 1,755 | 1,611 | 1,594 | 1,524 |

**Arddangosyn 7: safle Cyngor Sir Gaerfyrddin yng Nghymru ar gyfer digwyddiadau tipio anghyfreithlon 2006-2020**




29 Profodd y Cyngor gynnydd o 54% mewn digwyddiadau tipio anghyfreithlon rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mehefin 2020 o'i gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn cynt. Fe wnaeth hyn gyd-daro â chyfnod y cyfyngiadau symud cyntaf oherwydd y pandemig yng Nghymru, a chau Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref a weithredir ar ran y Cyngor am saith wythnos.

30 Yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Medi 2020, roedd perfformiad y Cyngor ar gyfer nifer y diwrnodau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon yn 6.4 diwrnod yn erbyn targed y Cyngor o 2.5 diwrnod. Dywedodd y Cyngor wrthym mai'r rheswm dros hyn oedd bod y gwasanaeth tipio anghyfreithlon yn gweithredu â chapasiti cyfyngedig, gan bod pobl wedi'u hadleoli i gyflawni swyddogaethau mewn gwasanaethau hanfodol eraill. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd perfformiad yn erbyn y mesur hwn yn gwella wrth i wasanaethau ddychwelyd at weithrediad arferol.

31 Mae'r Cyngor wedi datgan bod arno eisiau cael dealltwriaeth well am faterion tipio anghyfreithlon yn y sir. Mae'n defnyddio'r offer casglu data Flymapper a'r ap Fix My Street i gasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon. Mae'r Cyngor yn cofnodi pob digwyddiad y caiff ei hysbysu yn ei gylch, yn rhai y rhoddwyd gwybod amdanynt gan y cyhoedd ac yn rhai a ganfuwyd gan ei Dîm Glanhau ei hun. Mae'r Cyngor yn credu mai un o'r rhesymau pam fod ganddo nifer uwch o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon na'r rhan fwyaf o gynghorau eraill yw'r ffordd y mae'n cofnodi'r data (nid yw'n meddwl bod yr holl gynghorau'n cofnodi'r data yn yr un ffordd, ond nid yw'n gwybod).

32 Mae'r Cyngor wedi gwneud peth gwaith dros y blynyddoedd diwethaf i ganfod materion tipio anghyfreithlon yn y sir sy'n cynnwys: gadael sbwriel sy'n gysylltiedig â safleoedd bwyd brys, gwastraff wrth ochr y bin yn cael ei adael ar safleoedd dod

â gwastraff ac wrth finiau gwastraff cyhoeddus, materion mewn wardiau penodol, a dympio gwastraff masnachol mewn modd troseddol.

33 Fe benderfynodd y Cyngor gau Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref i wastraff masnachol trwy gyflwyno gwaharddiadau ar gerbydau a hawlenni ym mis Ebrill 2018. Dywedodd y Cyngor wrthym fod ganddo gynlluniau i ddatblygu cyfleuster ailgylchu gwastraff masnachol yn y dyfodol ond nad oes cyfleusterau o'r fath ganddo ar hyn o bryd.

34 Mae'r Cyngor yn cynnal rhai mentrau i helpu i frwydro yn erbyn materion tipio anghyfreithlon, gan gynnwys: defnyddio teledu cylch cyfyng, gweithgarwch gorfodi a rhoi cyhoeddusrwydd i hyn, rhoi sticeri ar finiau gwastraff cyhoeddus i annog pobl i beidio â gadael gwastraff wrth ochr y bin, a mentrau mewn wardiau penodol. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu offer ar gyfer digwyddiadau codi sbwriel gyda'r cyhoedd.

35 Mae gan y Cyngor fforwm gorfodi amlasiantaeth sy'n adolygu'r holl weithgarwch mewn perthynas â gorfodi. Yn ddiweddar mae'r tîm yma wedi cydnabod yr angen i fyfyrio ynghylch ei ddiben ac ailddiffinio ei gyfeiriad, gyda'r nod o fynd ati'n well i ymdrin â materion gorfodi hirsefydlog ledled y sir.

36 Fe gychwynnodd y Cyngor adolygiad glanhau i ddeall y mannau lle mae tipio anghyfreithlon yn broblem, gan amcanu at ddefnyddio'r wybodaeth hon i oleuo'r Strategaeth newydd ar Ansawdd yr Amgylchedd Lleol. Fodd bynnag, mae gwaith ar hyn wedi'i atal ar hyn o bryd. Er bod rhai mentrau'n mynd rhagddynt i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon, nid oes gan y Cyngor gynllun eglur ar hyn o bryd i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problem tipio anghyfreithlon yn y sir.

37 Yng Nghynllun Busnes Adran yr Amgylchedd 2020-23 o fewn y Cyngor mae un cam gweithredu sy'n ymwneud â thipio anghyfreithlon, sef 'Parhau i dargedu materion o ran ansawdd yr amgylchedd lleol, gan gynnwys baeddu gan gŵn, tipio anghyfreithlon a malltod sbwriel yn gyffredinol'. Nid oes unrhyw gamau gweithredu penodol yn y Cynllun Busnes i ddeall achos sylfaenol tipio anghyfreithlon, nac i leihau nifer y digwyddiadau cysylltiedig. Yr unig fesur a ddarperir yn y Cynllun Busnes yw'r Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus i fesur 'nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerir i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon'.

38 Cyfyngedig yw goruchwyliaeth y Cyngor ar ei berfformiad mewn perthynas â thipio anghyfreithlon. Mae aelodau ac uwch swyddogion yn cael adroddiadau sy'n ymwneud â nifer y diwrnodau a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn adrodd ar nifer gwirioneddol y digwyddiadau tipio anghyfreithlon na'i berfformiad o'i gymharu â chynghorau eraill. O ganlyniad, ychydig o ymwybyddiaeth sydd ymhlith Aelodau o faint y mater i'w galluogi i reoli perfformiad y Cyngor mewn perthynas â thipio anghyfreithlon, craffu arno a'i wella o ganlyniad.

## Mae'r Cyngor wedi drafftio strategaeth gwastraff yn ddiweddar i wneud y gwasanaeth gwastraff yn fwy cynaliadwy ond mae angen iddi gael ei chwblhau a'i hariannu

39 Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i wneud newidiadau eang i'w wasanaeth gwastraff i wireddu ei uchelgeisiau a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol[8] ac i wella perfformiad ei wasanaeth gwastraff mewn modd cynaliadwy i gyrraedd targed statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 i ailgylchu 70% o'r gwastraff (ac unrhyw dargedau uwch o bosibl yn y dyfodol).

40 Yn 2019, gofynnodd Llywodraeth Cymru i WRAP[9] Cymru ymgysylltu â'r holl gynghorau yr oedd wedi nodi bod perygl na fyddent yn cyrraedd targedau 2019-20, a oedd yn cynnwys Cyngor Sir Gaerfyrddin. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda WRAP trwy'r Rhaglen Newid Cydweithredol i adolygu ei fethodoleg casglu gwastraff yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn un o bum cyngor yn unig yng Nghymru sy'n dal i ddefnyddio casgliadau ailgylchu cymysg. Mae'r unig Gyngor yng Nghymru nad yw'n defnyddio gwasanaeth ailgylchu sych wythnosol nac yn casglu gwydr ar garreg y drws. Mae felly'n datblygu achos busnes i Lywodraeth Cymru ei ystyried ar gyfer y newid yn y gwasanaeth gwastraff dros y tymor hwy, yn seiliedig ar fodel casglu gwastraff Llywodraeth Cymru, Patrwm ar gyfer Casglu.


41 Yn gynnar yn 2021, fe ddrafftiodd y Cyngor strategaeth gwastraff, 'Strategaeth Casglu Gwastraff o Dŷ i Dŷ yn y Dyfodol 2021-2030', sy'n nodi ei fethodoleg arfaethedig newydd ar gyfer casglu gwastraff. Mae'r fersiwn ddrafft o strategaeth gwastraff y Cyngor yn cynnig dull graddol o newid ei drefniadau casglu gwastraff. Mae'r fersiwn ddrafft o'r strategaeth yn cynnig fel a ganlyn:

- O fis Medi 2022 tan fis Chwefror 2024 bydd y Cyngor yn newid i fodel interim a fydd yn golygu ei fod yn casglu deunyddiau ailgylchadwy sych yn wythnosol, yn casglu gwastraff gweddillol bob tair wythnos, ac yn cyflwyno gwasanaeth i gasglu gwydr ar garreg y drws bob tair wythnos.
- O fis Mawrth 2024 mae'r Cyngor yn bwriadu cyflwyno model Patrwm Casglu Gwastraff Llywodraeth Cymru, gyda gwydr, bwyd a deunyddiau ailgylchadwy sych wedi'u gwahanu'n cael eu casglu'n wythnosol.

**Arddangosyn 8: Cyngor Sir Gaerfyrddin, llinell amser arfaethedig y 'Strategaeth Casglu Gwastraff o Dŷ i Dŷ yn y Dyfodol 2021-2030', tudalen 29**

[8] Cyngor Sir Gaerfyrddin **Strategaeth Gorfforaethol 2018–2023**, diweddarwyd ym mis Mehefin 2019

[9] Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (sy'n gweithredu fel WRAP, elusen gofrestredig yn y DU). Mae'n gweithio i gyflawni economi gylchol trwy leihau gwastraff, datblygu cynhyrchion cynaliadwy, a defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon.




42 Mae'r Cyngor yn hyderus y gall ariannu'r cyfnod interim o adnoddau mewnol ond mae wedi canfod y bydd arno angen cymorth ar ffurf cyllid cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i symud at fodel y Patrwm ar gyfer Casglu. Fodd bynnag, os na fydd yn cael y cyllid hwn, bydd angen i'r Cyngor gytuno sut y bydd yn ariannu'r newid llwyr i fodel y Patrwm ar gyfer Casglu er mwyn cyflawni ei strategaeth a'i uchelgeisiau corfforaethol.

43 Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i ganolbwyntio ar y newid ymddygiad sylweddol y mae ei angen gan drigolion ar gyfer cyflwyno'r trefniadau casglu gwastraff newydd. Fodd bynnag, ar adeg ein hadolygiad nid oedd wedi ymgynghori â'r cyhoedd eto, ac nid oedd ganddo strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu i hwyluso a chefnogi proses bontio esmwyth o'r trefniadau cyfredol i unrhyw fodelau casglu gwastraff interim a therfynol.

44 Wrth newid i fodel y Patrwm ar gyfer Casglu, dylai'r Cyngor amcanu at ddysgu oddi wrth y cynghorau eraill yng Nghymru sydd eisoes wedi rhoi'r model ar waith.

45 Mae pwysau pandemig Covid ar y Cyngor yn naturiol wedi arafu ei gynnydd o ran datblygu'r fersiwn ddrafft o'i strategaeth gwastraff. Yn awr mae'n cyflymu pethau ond mae'r oedi wedi gadael y Cyngor â llinellau amser sy'n gryn her i wneud newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth. Caiff ei uchelgais ei gymhlethu ymhellach gan y diffyg sicrwydd ynghylch cyllid gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. Mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn ceisio cynyddu capasiti staff i helpu i ddatblygu a chyflawni'r strategaeth newydd trwy recriwtio rheolwr prosiect newydd am gyfnod o bedair blynedd.

46 Er mai 'Strategaeth Casglu Gwastraff o Dŷ i Dŷ yn y Dyfodol 2021-2030' yw teitl y fersiwn ddrafft o strategaeth gwastraff y Cyngor, mae hefyd yn cynnwys cynlluniau'r Cyngor mewn perthynas â hybu'r economi gylchol a datblygu Parc Eco Nantycaws. Mae'n cynnwys cyfeiriad at gynlluniau'r Cyngor i ddatblygu canolfannau atgyweirio ac ailddefnyddio ar safle Nantycaws ac yng nghanol tref

Llanelli. Bydd safle Llanelli'n galluogi pobl i brynu eitemau am brisiau fforddiadwy gan hefyd ei gwneud yn bosibl ailddefnyddio eitemau a fyddai'n cael eu taflu i ffwrdd fel arfer.

47 Mae gan y Cyngor a CWM gynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu safle Nantycaws fel parc eco a chyfleuster gwastraff strategol. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys:

- creu depo canolog ar gyfer model y Patrwm ar gyfer Casglu;
- adeiladu prosiectau'r economi gylchol gan gynnwys pentref ailddefnyddio, cyfleuster ailddefnyddio paent, a chanolfan ailgylchu fasnachol;
- cynhyrchu a dosbarthu ynni gan ddefnyddio'r haul, gwynt a gwastraff;
- unedau masnachol ar gyfer defnydd diwydiannol; a
- chreu seilwaith ailwefru ac ailgyflenwi â thanwydd ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn (ULEV).

Un o'r elfennau allweddol wrth ganlyn arni â'r cynlluniau ar gyfer safle Nantycaws yw datblygu'r seilwaith ffyrdd presennol. Mae'r Cyngor a CWM mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch gwella'r gyffordd ar yr A48; fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes gwarant y ceir cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y gwelliannau i'r ffyrdd.

48 Llwyddodd y Cyngor i gael cyllid yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ystod o brosiectau'r economi gylchol. Mae ffocws y Cyngor hyd yn hyn wedi bod ar ailgylchu ac ailddefnyddio, yn bennaf o ganlyniad i dargedau statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer y ganran o'r gwastraff a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio. Mae cyfle i'r Cyngor wneud mwy o waith ar atal gwastraff wrth edrych tua'r dyfodol. Felly, efallai yr hoffai'r Cyngor ystyried cysoni ei strategaeth ddrafft yn fwy â'r blaenoriaethau yn yr hierarchaeth wastraff[10].

**Arddangosyn 9: Llywodraeth Cymru, Tuag at Ddyfodol Diwastraff, 2010, Yr Hierarchaeth Wastraff, tudalen 16**




[10] Mae'r hierarchaeth wastraff yn nodi ym mha drefn y dylid ystyried yr opsiynau ar gyfer rheoli gwastraff yn seiliedig ar yr effaith ar yr amgylchedd.

49 Mae gan Adran yr Amgylchedd yn y Cyngor gynllun busnes hefyd sy’n nodi’r camau gweithredu y mae’n bwriadu eu cymryd yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â’i gwasanaethau gwastraff a’r newidiadau y mae’n bwriadu eu gwneud i’w threfniadau casglu. Nid yw’r holl gamau gweithredu’n benodol, yn fesuradwy nac yn amserol, ond maent mae cysylltiad uniongyrchol rhyngddynt a’r mesurau yn y cynllun busnes. Mae’r diffyg aliniad hwn yn ei gwneud yn anodd i’r Cyngor fonitro cynnydd neu wybod pan fo camau gweithredu wedi’u cwblhau a deilliannau wedi cael eu cyflawni.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.